YSGOL BRYNREFAIL

Fala Favela

'Fala' yw 'siarad' yn Bortiwgaleg, iaith gyntaf yng ngwlad Brasil, a'r Favela i'w gair i ddisgrifio'r trefi sianti y mae'r bobl dlawd yn byw ynddynt. Fel rhan o'u gwaith 'dinasyddiaeth' y mae disgyblion blwyddyn 9 wedi bod yn archwilio prosiect ar fywyd yn y Favela yn ystod eu gwersi pynciol yn Daearyddiaeth a Cerdd. Y mae bywyd y bobl sy'n gorfod byw yn y Favela yn dlawd ofnadwy ac yn ystod eu gwersi Daearyddiaeth y mae'r disgyblion wedi bod yn astudio a chymharu'r tlodi a'r trallod y mae'r boblogaeth yn ei wynebu yn eu bywydau beunyddiol.

OND! Y mae un digwyddiad pob blwyddyn yn ysgogi ac yn cyfoethogi bywyd y Favela ac y mae'r paratoadau amdano yn parhau drwy'r flwyddyn gyfan – y Carnifal !
Mae'r Carnifal bob blwyddyn yn seiliedig ar rythmau'r samba ac yn ystod eu gwersi Cerdd bu blwyddyn 9 yn astudio rhythmau'r samba ac yn dysgu sut i chwarae'r rhythmau hyn ar wahanol offerynnau ac fe gafwyd perfformiad awyr agored o flaen y camerau.

Bu Angie Roberts a Malcolm Williams o Ganolfan Addysg Byd, Prifysgol Bangor ym Mrynrefail yn ffilmio disgyblion blwyddyn 9 yn siarad am eu gwaith a bydd DVD yn cael ei gynhyrchu ar y Favela gaiff ei rannu gyda holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru.

Bu Angie Roberts a Malcolm Williams o Ganolfan Addysg Byd, Prifysgol Bangor ym Mrynrefail yn ffilmio disgyblion blwyddyn 9 yn siarad am eu gwaith a bydd DVD yn cael ei gynhyrchu ar y Favela gaiff ei rannu gyda holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru.